# t. Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Medi 2016

Amser: 14.00 - 16.37

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3711

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc<br>Suzy Davies AC, Comisiynydd<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Anthony Barrett, Bartner Rheoli<br>Matthew Mortlock<br>Dave Thomas<br>Mike Usher<br>Emma Woodcock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br><br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br><br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 196KB) Gweld fel HTML (195KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd Anthony Barrett (yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol) yn bresennol ar ei ran.

## 2 Llywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad

2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor blaenorol ar Lywodraethiant Bwrdd Iechyd GIG Cymru.

2.2 Nododd y Pwyllgor sylwadau Archwilydd Cyffredinol Cymru bod ymatebion Llywodraeth Cymru, yn ei farn ef, yn rhesymol ac yn rhoi sicrwydd bod camau naill ai'n mynd rhagddynt mewn meysydd lle y mynegwyd pryderon, neu fod camau wedi'u cynllunio ar gyfer y meysydd hynny.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o'r ymatebion i adroddiad y Pwyllgor blaenorol.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

# 4 Papur(au) i'w nodi

## 4.1 Cylchffordd Cymru

4.1 Aeth yr Aelodau ati i drafod a nodi'r ohebiaeth a chytuno i edrych eto ar y mater hwn ar ôl i ganfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru ddod i law.

# 5 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

5.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.
5.2 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion.

# 6 Y Fenter Dwyll Genedlaethol: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Fenter Dwyll Genedlaethol.

# 7 Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

7.1 Cafodd y Pwyllgor wybodaeth am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Lywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd.

## 8 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai a'r ohebiaeth gysylltiedig.

## 9 Y rhaglen waith: Trafod Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ymchwiliadau a arweinir gan y Pwyllgor

9.1 Trafododd yr Aelodau'r deunydd briffio a gafwyd yn sgil adroddiadau diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghyd â'r papur cwmpasu ar ymchwiliadau posibl y gallai'r Pwyllgor eu harwain.
9.2 Cytunodd yr Aelodau ar y canlynol:

- Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: ailystyried a ddylid cynnal ymchwiliad ar ôl cael ymateb gan Lywodraeth Cymru;
- Y Fenter Dwyll Genedlaethol: nodwyd yr adroddiad a chytunwyd arno. Nid oes unrhyw gamau pellach ar gyfer y Pwyllgor;
- Kancoat: cytunwyd i gynnal un sesiwn dystiolaeth â Llywodraeth Cymru;
- Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai: teimlai'r Pwyllgor fod y cynnydd yn araf mewn nifer o feysydd, a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr.

9.3 Ar ôl trafod yr ymchwiliadau posibl y gallai'r Pwyllgor eu harwain, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliadau i blant sy'n derbyn gofal a chymdeithasau tai.

## 10 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Comisiwn y Cynulliad

10.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2015-16, gan holi Suzy Davies AC, Comisiynydd y Cynulliad, Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 11 Craffu ar Gyfrifon 2015-16: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

11.1 Trafododd Aelodau y dystiolaeth a gafwyd o ran craffu ar adroddiad blynyddol Comisiwn y Cynulliad 2015-16.